

**#GwyneddEryri35**

# Ecoamgueddfa

## **Dr Einir Young**

Uwch-Gymrawd Ymchwil, Ysgol Hanes, Prifysgol Bangor  
Senior Research Fellow, School of History, Bangor University

## **Gwenan Griffith**

Rheolwr Prosiect Ecoamgueddfa Llŷn. Ysgol Hanes, Prifysgol Bangor  
Ecoamgueddfa Llŷn Project Manager. School of History, Bangor University

## **Mared Llywelyn Williams**

Swyddog Addysg a Gwirfoddoli ym Mhlas Carmel, Anellog  
Education and Volunteering Officer at Plas Carmel. Anellog

## **Dyddgu Mair Williams**

Rheolwraig a swyddog treftadaeth Amgueddfa Forwrol Llŷn yn Nefyn  
Manager and heritage officer at the Llŷn Maritime Museum, Nefyn

**@ecoamgueddfa**

**[www.ecoamgueddfa.org](http://www.ecoamgueddfa.org)**

# ECOAMGUEDDFA LLŶN

CROESO DIWYLLIANNOL CYMREIG  
*A CULTURAL WELSH WELCOME*

Cynhadledd Gwynedd ac Eryri 2035

GWENAN GRIFFITH  
MARED LLYWELYN WILLIAMS  
DYDDGU MAIR WILLIAMS  
DR EINIR YOUNG

ecoamgueddfa 



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



## **BETH YW ECOAMGUEDDFA LLŶN?**

Partneriaeth rhwng 7 safle treftadol  
wnaeth benderfynu 10 mlynedd yn ôl i  
gydweithio er mwyn  
hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Pen  
Llŷn.

## ***WHAT IS ECOAMGUEDDFA LLŶN?***

*A partnership between 7 heritage sites  
working together for over 10 years to  
promote the identity, heritage, and  
culture of the Llŷn Peninsula.*



## PWY / *WHO?*

- Nant Gwrtheyrn
- Amgueddfa Forwrol Llŷn
- Felin Uchaf
- Plas Carmel
- Porth y Swnt
- Plas yn Rhiw
- Plas Glyn y Weddw



## **BETH YDYM YN CEISIO EI WNEUD?**

Ymestyn y tymor gwyliau – denu ymwelwyr i Ben Llŷn tu allan i'r tymor gwyliau traddodiadol.

Rhannu a dathlu ein hanes a'n diwylliant i godi ymwybyddiaeth ymwelwyr (a phobl leol) am yr ardal.

## ***WHAT ARE WE TRYING TO DO?***

*Extend the holiday season – attract visitors to the Llŷn Peninsula outside of the traditional holiday season.*

*Share and celebrate our history and culture to share information visitors (and local people) about the area.*



## YN ARWAIN AT...

- Gynnydd mewn ymwelwyr diwylliannol
- Diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn
- Buddion economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol

## RESULTING IN...

- Increase in cultural visitors
- Year-round tourism industry
- Economic, environmental, cultural, and social benefits



## **SUT?**

### **DULL GWEITHREDU**

Mae model gweithredu Ecoamgueddfa Llŷn yn seiliedig ar gydweithio a chyd-hyrwyddo rhwng safleoedd yr Ecoamgueddfa a'r gymuned ehangach.

## ***HOW?***

### ***OPERATING METHOD***

The operating model of the Llŷn Eco-Museum is based on collaboration and co-promotion between the Ecomuseum sites and the wider community.



## **SUT? DULL GWEITHREDU**

Mae gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Ecoamgueddfa yn gweithredu fel pyrth i gasglu a hyrwyddo cynnwys o'r Ecoamgueddfa, y partneriaid, a'r gymuned leol i gynulleidfa ehangach.

## **HOW? OPERATING METHOD**

*The Eco-Museum website and social media channels serve as portals to collect and promote content from the Ecomuseum, its partners, and the local community to a wider audience.*



## Nid eich ymgyrch farchnata arferol...

**Cadw petha'n lleol – cynnwys yn cael ei greu gan y gymuned, er budd y gymuned.**

Mae'r holl adnoddau wedi cael eu creu gan artistiad lleol, awduron, beirdd, haneswyr, datblygwyr gwe, fideograffwyr, ffotograffwyr.

## *Not your average marketing campaign...*

***Keeping things local – content is created by the community, for the benefit of the community.***

*All the resources have been created by local artists, authors, poets, historians, web developers, videographers, and photographers.*



## Nid eich ymgyrch farchnata arferol...

Mae'r gyllideb o gynllun SPF ac INTERREG wedi galluogi i ni greu cyfres o ddeunyddiau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo treftadaeth naturiol a ddiwylliannol yr ardal am flynyddoedd i ddod.

## *Not your average marketing campaign...*

*The budget from the SPF and INTERREG projects has enabled us to create a series of materials that can be used to promote the area's natural and cultural heritage for years to come.*



## Pam roeddem fel safle am fod yn rhan o Ecoamgueddfa?

Fel safle cymharol fach, newydd ar gychwyn y daith, roedd gwerthoedd Ecoamgueddfa yn apelio'n fawr. Cynnal safon, hyrwyddo a gwarchod treftadaeth, hanes a straeon lleol – a gwarchod y Gymraeg.

## *Why did we as a site want to be part of the Ecomuseum?*

*As a relatively small, new site at the start of the journey, the Ecoamgueddfa's values were very appealing. Maintain standards, promote and protect local heritage, history and stories - and protect the Welsh language.*



## **Pam roeddem fel safle am fod yn rhan o Ecoamgueddfa?**

Roedd yn gyfle i ni fod yn rhan o rwydwaith ehangach yn Llŷn i ddenu mwy o bobl leol ac ymwelwyr i'r safle, i gydweithio a rhannu syniadau.

Roedd Ecoamgueddfa yn ein cryfhau ni fel safle, a ninnau yn cyfrannu at lwyddiant Ecoamgueddfa.

## ***Why did we as a site want to be part of the Ecomuseum?***

*It was an opportunity for us to be part of a wider network in Llŷn to attract more local people and visitors to the site, to collaborate and share ideas.*

*The Ecomuseum strengthened us as a site, and we contributed to the success of Ecomuseum.*



## Sut mae safleoedd yn elwa?

Cyswllt. Fel yr unig berson cyflogedig ar y safle, mae gwybod bod gen i gyswllt gyda swyddogion Ecoamgueddfa a'r safleoedd eraill yn fendith.

Er bod criw gwych o wirfoddolwyr ganddom fel pwyllgor – nid yw'n deg swnian ar wirfoddolwyr byth a beunydd! Rwyf bellach yn ystyried y swyddogion a gweithwyr y safleoedd eraill fel cydweithwyr.

## *How do the sites benefit?*

*As the only employed person on site, knowing that I have contact with Ecoamgueddfa officials and the other sites is a blessing.*

*Although we have a great group of volunteers and a hard working committee - it's not fair to nag them excessively.*

*I now consider the officers and employees of the other sites as colleagues.*



## Hyrwyddo

Mae adran farchnata Ecoamgueddfa yno i gefnogi gyda hyrwyddo digwyddiadau. Rydym yn tagio'r cyfrif ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn chwinciad mae ein cynnwys ni yn cyrraedd cynulleidfa ehangach, rhai nad sydd yn dilyn Plas Carmel ar y cyfryngau cymdeithasol eto.

## Promotion

*Ecoamgueddfa's marketing department is there to support with promoting events. We tag the account on social media and in no time our content reaches a wider audience, some who don't follow Plas Carmel on social media yet.*



## Cyfoethogi profiad

Drwy fod yn rhan o Ecoamgueddfa mae hynny'n golygu medrwn ddefnyddio a rhannu cynnwys sydd wedi ei ddatblygu ar ein safle i gyfoethogi profiad ymwelwyr.

Rydym ni a'r Ecoamgueddfa yn elwa o hynny gan ein bod ninnau fel safle yn hyrwyddo eu gwaith nhw.

## Enrich the visitor's experience

*By being part of Ecoamgueddfa that means we can use and share content that has been developed on our site to enrich the visitor's experience.*

*We and the Ecoamgueddfa benefit from that as we as a site promote their work.*



## Hwb Pendraw Llŷn

Rhannu cenhadaeth Ecoamgueddfa yn lleol drwy gynnwys y safleoedd craidd lleol (Plas Carmel, Felin Uchaf, Plas yn Rhiw, Porth y Swnt) Ynys Enlli a busnesau lleol – o fwytai, llety hunan arlwyio, siopau ayyb

Rhannu deunydd Ecoamgueddfa fydd o gymorth iddyn nhw i hyrwyddo eu busnes – a hyrwyddo gwaith Ecoamgueddfa.

## ***Pendraw Llŷn Hub***

*Sharing the mission of Ecoamgueddfa locally by including the local core sites (Plas Carmel, Uchaf Felt, Plas yn Rhiw, Porth y Swnt) Ynys Enlli and local businesses - from restaurants, self-catering accommodation, shops etc.*

*Sharing Ecoamgueddfa's material will help them to promote their business - and promote Ecoamgueddfa's work.*



## Hwb Pendraw Llŷn

Rhannu'r neges bod hon yn ymgyrch wahanol. Ein bod yn angerddol dros greu cynnwys cymunedol ac allbynau.

Cydweithio a meddwl sut mae taclo'r her o gael economi ymwelwyr adfywiol yn hytrach nag un echdynol, ble mae'r iaith a'n diwylliant unigryw wrth ei wraidd.

## *Pendraw Llŷn Hub*

*Share the message that this is a different campaign. That we are passionate about creating community content and outputs.*

*Working together and thinking about how to tackle the challenge of having a regenerative visitor economy rather than an extractive one, where the language and our unique culture are at the heart of it.*



## Cydweithio

Mae cydweithio gyda partneriaid yr Ecoamgueddfa yn angenrheidiol. Gan fy mod yn gweithio ar ben fy hun ac yn ymateb i bwyllgor o wirfoddolwyr unwaith y mis, mae unigedd yn medru bod yn rhan heriol i'r swydd. Felly mae'r gefnogaeth gan bartneriaid yr Ecoamgueddfa yn cryfhau statws ac effeithiolrwydd cydweithio a hefyd medru rhannu gwybodaeth. Ceir ymdeimlad o fod yn rhan o dîm.

## Collaboration

*Collaborating with the Ecoamgueddfa partners is essential. I work on my own and respond to a committee of volunteers once a month, therefore isolation can be a challenging aspect of the job. The support from the Ecoamgueddfa partners strengthens the status and effectiveness of collaboration and also enables the sharing of information. There is a sense of being part of a team.*



## Cyfraniad Cymunedol

Yn rhinwedd fy swydd 'rwyf wedi cael yr anrhydedd o fod yn gadeirydd Gŵyl Penwythnos Porthi'r Penwaig a gynhelir ddiwedd Mehefin yn nhref Nefyn.

Mae'r Ecoamgueddfa yn rhan allweddol o'r ŵyl, gan ddod â busnesau a sefydliadau'r dref ynghyd i gynllunio a threfnu'r digwyddiad cymunedol, ac yn sicrhau cydweithrediad llwyddiannus rhwng pawb.

## *Community Contribution*

*I have had the honour of being the chair of Penwythnos Porthi'r Penwaig - held at the end of June in the town of Nefyn.*

*The Ecoamgueddfa is a key part of the festival, bringing together local businesses and organizations to plan and organize the community event, ensuring successful collaboration between everyone.*



## Penwythnos Porthi'r Penwaig

- Noson Lawen
- Parêd drwy'r dref
- Gŵyl Fwyd
- Chwaraeon i blant gyda Clwb Pel Droed Nefyn
- Gigs yn y tafarndai
- P'nawn teulu yn Ganolfan Nefyn

## Penwythnos Porthi'r Penwaig

- Noson Lawen
- Parade through the town
- Food festival
- Sport activities with Clwb Pel Droed Nefyn
- Gigs in the pubs
- Family afternoon at Ganolfan Nefyn



## Cyfraniad Cymunedol

Daeth ymwelwyr o lefydd pell fel Canada a nes, fel Wrecsam i fwynhau'r profiad diwylliannol unigryw yn y ŵyl, gan gysylltu â'n iaith, ein hethos a'n cynnyrch lleol. Roeddent yn gwerthfawrogi'r teimlad o gymuned a'r dathliad o draddodiadau Cymreig.

## Community Contribution

*Visitors from afar e.g. Canada and closer to home e.g. Wrexham enjoyed the unique cultural experience at the festival, connecting with our language, heritage, and local produce. They appreciated the sense of community and the celebration of Welsh traditions.*



## Cyfraniad Cymunedol

Yn sicr mae'r Ecoamgueddfa yn dod yn fwy adnabyddus o fewn ein ardal a busnesau yn gweld budd o fod ynghlwm ag o. Mewn undod mae nerth wrth gwrs! Mae medru rhannu ein stori i bwy bynnag ddaw i'n ardal yn hanfodol bwysig ac felly yn ffrainc cael adrodd ein hanes gan fedru gwarchod yr iaith, diwylliant a'n treftadaeth gan ymfalchio yn ein Penrhyn.

## Community Contribution

*The Ecoamgueddfa is becoming more well-known within our area, and businesses are seeing the benefits of getting involved. There is strength in unity, of course! Being able to share our story with anyone who visits our area is vital, and therefore it is a privilege to tell our story while protecting our language, culture, and heritage, whilst proudly showcasing our Peninsula.*

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## *Wellbeing of Future Generations Act*



Hirdymor



Longterm

Atal



Prevention

Integreiddio



Integration

Cynnwys



Involvement

Cydweithio



Collaboration



## Annog pob safle i gael

- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Amgylcheddol
- Polisi Cydraddoldeb
- Côt ymarfer Eco
- Côt Llesiant

Ac mae nhw wedi cael templad i wneud hyn

Ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth –  
adrodd ar rhain i gyllidwyr

## *All encouraged to have*

- *Welsh language policy*
- *Environmental policy*
- *Equality and diversity policy*
- *Eco-code*
- *Well-being code*

*Template provided*

*Equality and diversity awareness – reporting to  
funders*

# HYGYRCHEDD ACCESSIBILITY



## adroddiad hygyrchedd Plas Carmel

mai 2024



Funded by  
UK Government  
Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



WEDI'I YMU GAN  
**FFYNIANT  
— BRO —**

POWERED BY  
**LEVELLING  
— UP —**





## NID dyma yw Ecoamgueddfa

NID rhywbeth wedi ei greu yn benodol ar gyfer ymwelwyr - dyma straeon y gymuned, a chroeso i ymwelwyr.

NID un maint yn ffitio pawb – pob safle yn wahanol ac unigryw ac yn cadw ei hunaniaeth ond yn elwa o gydweithio.

## *The Ecoamgueddfa is NOT*

*NOT specifically created for the benefit of visitors – it's the community's 'story', visitors welcome.*

*NOT a one-size fits all 'any attraction anywhere' offer. Each site is autonomous but benefit from collaborating.*



## NID dyma yw Ecoamgueddfa

NID yw'r Gymraeg yn ymylol ac yn faich 'os oes raid i ni'. Dyma'n iaith gwaith a gweithredu.

NID yw'n cau allan y di-Gymraeg – y dymuniad yw croesawu pawb a dod â nhw ar siwrne ieithyddol gyda ni [llun o'r taflenni?]

## *The Ecoamgueddfa is NOT*

*NOT inconvenienced by the Welsh language an 'if we must' add-on. This is our modus operandi.*

*NOT exclusive. All are welcome and we want to encourage everyone on a linguistic journey of discovery.*



# I grynhoi

Pwrrpas bodolaeth Ecoamgueddfa Llŷn yw cydweithio er lles pobl a chymunedau Pen Llŷn i ddathlu iaith, treftadaeth, hunaniaeth, diwylliant a thrwy hynny gyfrannu tuag at brofiad ymwelwyr o safon ac economi ymweld ffyniannus a chynaliadwy.

## *Summary*

*Ecoamgueddfa Llyn's raison d'être is to work together for the benefit of the people and communities of Pen Llŷn to celebrate language, heritage, identity, culture and thus contributing towards quality visitor experience and a thriving and sustainable tourism sector.*



## I grynhoi

Cydweithio yn greiddiol ac yn gyfle i fusnesau sy'n cofleidio'r Gymraeg a dwy-ieithrwydd i ddatblygu USP sy'n wahanol ac egsotic o'i gymharu â cyrchfannau eraill yn y DU. Gwyliau 'dramor' heb o fewn cyrraedd i'ch cartref!

## Summary

*Collaborating is key and an opportunity for businesses who embrace the Welsh language/bilingualism to market themselves as more 'exotic' than other destinations within the UK. Holiday 'abroad' at home!!*

# DIOLCH

GWENAN GRIFFITH  
MARED LLYWELYN WILLIAMS  
DYDDGU MAIR WILLIAMS  
DR EINIR YOUNG

ecoamgueddfa 



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU